

Rhif cyfeirio	Cytuno â'r cynnig		Pwy ydynt?	Hysbysiad Adroddiad Ymgynghori		Sylwadau pellach
	Ydy	Na		Oes	Na	
001	✓		Rhiant plentyn oedd yn yr ysgol yn flaenorol / Aelod o staff yr ysgol		✓	Rwyn meddwl ei fod yn syniad da
002	✓		Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol		✓	Yn gymaint mae'n well gen i ysgol fach, yn realistig mae un ysgol fawr yn gwneud mwy o synwyr.
003		✓	Aelod o staff yn un o'r ysgolion	✓		Teimlaf fod cael gwared, trwy gau, ysgol bentref yn cael effaith niweidiol ar y gymdeithas ehangach y mae'r ysgol yn rhan ohoni, a hefyd ar yr ysgol ble mae dosbarthiadau'n fach ac mae gan yr holl staff berthynas gadarnhaol gyda'r rhieni. Teimlaf pe bai angen, y byddai ffederaleiddio'n well ateb yn yr ardal hon. Am sawl rheswm mae'n anymarferol - byddai cludo plant 3 oed o Drefriw mewn tasci yn frawychus i blant o'r oed hwn. Dosbarthiadau mawr. Colli swyddi. Y tair ysgol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd nawr, rhannu adnodau ac ymarfer da. Mae ffyrdd eraill o ddatrys problemau cyllideb heb gau ysgolion bach sy'n cynnig cymaint i blant.
004	Ebost					<p>Dywedwyd wrthyf am ysgrifennu atoch gan eich swyddogion oedd yn mynychu'r cyfarfod yn Ysgol Dolgarrog ar bawn Mawrth. Wedi mynychu'r cyfarfod ysgrifennaf atoch i ofyn am drefnu cyfarfodydd cyhoeddus pellach cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben. Cafodd y tri chyfarfod a gynhaliwyd yn y tair ysgol gefnogaeth wael, wedi siarad gyda rhieni, staff a llywodraethwyr y tair ysgol, yn ogystal ag aelodau'r gymdeithas ehangach, y rheswm dros hyn yw oherwydd roedd pawb dan yr argraff bod y penderfyniad i gyfuno wedi'i wneud, a bod y cyfarfodydd presennol i gyflwyno cynlluniau a gwybodaeth am yr ysgol arfaethedig newydd. Y rheswm dros hyn yw bod pobl dan yr argraff bod ymgynghoriad wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, gan mai hyn y galwodd yr AALI y cyfarfodydd hyn! Er na wnaeth yr un ysgol siarad neu bleidleisio o blaid cau'r ysgolion a chyfuno yn yr 'ymgynghoriadau', ac felly roedd yn anodd gweld sut oedd yr AALI wedi dod i'r casgliad mai ysgol newydd oedd y dewis gorau. Roedd dewisiadau eraill e.e. ffederaleiddio, oedd yn cael mwy o ffafriaeth, felly mae sut ar wyneb daear y daeth rhywun i'r casgliad i gynnig cyfuno fel yr unig ddewis y tu hwnt i'm deall i ac eraill! Mae pobl a gysylltwyd â'r tair ysgol yn teimlo'n gryf iawn eu bod wedi'u camarwain gan yr AALI i feddwl nad oes dim pellach y gallant ei ddweud a'i wneud i wrthwynebu'r cynlluniau hyn, roedd cynghorwyr lleol hyd yn oed dan yr argraff nad oedd ymgynghoriad pellach i'w gynnal! Rwy'n eich annog yn gryf i gynnal cyfarfodydd pellach, neu gynnal un cyfarfod hyd yn oed i'r tair ysgol gyda'i gilydd, fel y gall pobl ddweud eu barn. Dywedodd eich swyddogion nad oes raid i chi wneud hyn gan mai hyn oedd pwrpas y cyfarfodydd a drefnwyd dros y pythefnos diwethaf, fodd bynnag, byddwn yn pwysu'n gryf mai eich dyletswydd yw gwneud hyn, gan eich bod wedi camarwain cymaint o bobl i feddwl na allant ddweud mwy ar y mater, pan fo hyn yn gwbl anghywir, ac o ganlyniad roedd cefnogaeth wael i'r cyfarfodydd. Dywedodd eich swyddogion mai NAWR yw'r amser i bobl gyflwyno eu barn a gwrthwynebu neu gefnogi'r cynnig - wel byddwn i'n dadlau eich bod wedi cymryd yr hawl oddi ar bobl trwy eu camarwain i feddwl bod y penderfyniad terfynol wedi'i wneud, ac fel y nodais rwyf i a sawl un arall sy'n teimlo'n gryf iawn fod hyn yn ddyledus arnoch i bawb sy'n gysylltiedig â'r tair ysgol er mwyn cael cyfle i wneud hyn. Awgrymodd eich swyddogion mai'r cyfryngau a greodd y cam-amgyffred hwn, fodd bynnag, byddem yn dadlau y dylai'r AALI fod wedi cywiro'r camgraff, boed hynny'n wir, cyn gynted y gwnaeth y cyfryngau'r datgeliad.</p>

005		✓	Parent of child currently at one of schools		✓	Dim llwybr cerdded/beic diogel rhwng Trefriw a Dolgarrog. Os bydd y plant yn cael cludiant gan CBSC yna ni fydd gweithgareddau ar ôl ysgol ar gael iddynt gan y bydd cludiant CBSC yn gadael am 3.15pm. Effaith negyddol ar gymysgedd cymdeithasol teuluoedd – ni fydd yr ardal yn gyfeillgar i blant gyda theuluoedd yn symud i drefi fel bod ysgolion yn fwy rhwydd. Mae colli Ysgol Rowen eisoes wedi arwain at golli siop y pentref, bydd effaith tebyg mewn pentrefi eraill. Bydd cysylltiadau ag eglwysi a chapeli lleol yn cael eu colli gan na fydd 1 ysgol ddim yn cael gwasanaeth carolau mewn sawl lleoliad i fyny ac i lawr y dyffryn.
006		✓	Parent of child previously at one of Schools		✓	Byddai'n drist iawn cau unrhyw ysgol
007		✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	
008		✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	
009		✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Credaf y byddai cyfuno'n tair ysgol ynghyd yn dinistrio'r gymdeithas. Gan mai'r ysgol a'r capel yw calon y gymdeithas, rydym oll yn ymuno ynghyd a byddai'n golled fawr i'r pentref. Mae clwb plant/ ieuencid yn Salem a theimlaf y byddai hwn yn cau pe bai plant yn symud i ysgol arall.
010	Ebost					Roedd pawb yn yr ardal yma o dan yr argraff eich bod wedi gwneud penderfyniad, ond deallwn yn awr mai taflu llwch i'n llygaid oeddech a mae hyn wedi golygu bod rhieni wedi symud eu plant o Dalybont a Threfriw i Ddolgarrog, yn union yn chwarae i'ch dwylo er mwyn i chi allu dweud fod yna ddim digon o blant yn yr ysgolion yma er mwyn cyfiawnhau eu cau
011		✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓		Aeth 2 o fy mhiant hŷn i Ysgol Trefriw a nawr mae gennyf 2 blentyn cyn ysgol a fyddai'n mynychu Ysgol Trefriw pe bai'n aros ar agor. Byddai'n drist gweld yr ysgol yn cau, mae ar y plant angen eu hygol bentref eu hunain i'w mynychu.
012		✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓		Fel cyn ddisgybl o Ysgol Trefriw byddai'n gas gennyf weld yr ysgol yn cau. Byddai'n golled i blant Trefriw beidio â bod â'u hysgol eu hunain i'w mynychu.
013		✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol		✓	Mae pedair cenhedlaeth o fy nheulu wedi mynychu Ysgol Trefriw. Byddai'n siom ei chau. Byddai'n fy mhoeni beth fyddai sefyllfa cludiant gyda phlant bach yn gorfod mynychu ysgol mewn pentref arall.
014		✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓		Mae digon o blant yn byw yn Nhrefriw ar ardal amgylchynol i wneud Ysgol Trefriw yn ymarferol, un ai fel y mae neu fel rhan o ysgol wedi'i ffederaleiddio. Mae angen i Gyngor Conwy ymchwilio'r rhesymau pam nad yw llawer o'r plant hyn yn mynychu'r ysgol ymhellach cyn y bo penderfyniad yn cael ei wneud.
015		✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓		Effaith ar y gymdeithas - bydd Trefriw yn colli ei gymeriad Cymraeg, ni fydd teuluoedd Cymraeg newydd yn symud i bentref heb ysgol. Problemau teithio a chael plant i'r ysgol, dim llwybr cerdded diogel, bydd angen eu cludo - costau?

016	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Mae'n gywilydd ystyried cau ysgolion bach y wlad a'r pentrefi yn dibynnu ar ysgol fel canol y pentref.
017	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Nid oes angen ymuno'r dair ysgol - mae'r dair Ysgol a chymeriad eu hunain heblaw am y gost adeiladu Ysgol newydd. Mae cau ysgolion yn amharu ar y pentref y gymuned ac adnoddau sy'n barod ar gael.
018	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Rwy'n byw yn Nhrefriw ac mae fy mhlentyn hynaf i gychwyn yn yr ysgol ym Medi 2016. Does gen i ddim cludiant a babi felly pe bai ysgol Trefriw yn cau bydd yn gwneud mynd â fy mhlentyn hynaf i'r ysgol yn anodd iawn. Byddai'n well gen i fy mhlant fynd i ysgol hyfryd fechan y pentref ble byddant yn cael mwy o sylw gan yr athrawon .
019	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Ganwyd mwy o blant yn Nhrefriw yn ddiweddar felly bydd ffigyrau ar gyfer ysgol bentref yn cynyddu
020	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Byddai cau ysgol yn creu anawsterau i blant a rhieni a chymdeithas glos yn dod i ben
021	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Cau'r ysgol - plant yn gorfod cael eu cludo ar gludiant cyhoeddus yn ifanc iawn
022	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Anghyfleus i rieni nad ydynt yn gyrru, colli 'ysbryd' cymdeithasol a fydd yn anorfod yn arwain at golli gwasanaethau leol eraill
023	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Cau ysgol bentref - colli cysylltiad cymdeithasol - digwyddiadau cymdeithasol etc. Cymryd plant o'u gwreiddiau - eu pentref eu hunain
024	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Fel cyn ddisgybl o'r ysgol a rhiant plant a fynychodd, gwn pa mor bwysig yw cael ysgol gynradd o fewn pellter cerdded, a chael lle canolog yn ein cymdeithas
025	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓	Trist iawn oedd cael ffeindio allan na fod penderfyniad wedi cael ei wneud I gyfuno y tair ysgol, ar ol I mi fod mewn cyfarfod yn neuadd Tal y Bont lle roedden wedi cael gwybodaeth fod y penderfyniad wedi cael ei wneud. Ddim yn deg iawn ar yr ysgolion nac ar y staff. Ni ddylai fod wedi rhoi y gwybodaeth yma i rhieni a staff oherwydd nid oedd yn wir. Dylai pob pentref cael ysgol, mae ysgol tal y bont yn ysgol fach da a mi fisa colled mawr i'r pentref ar gymuned ei golli. Ma ne ddigon o disgyblion yn ysgol tal y bont i cadw ar ei agor. Ddylai pob pelntyn sydd yn byw yn y pentref mynychu ysgol lleol. Dylai fod pobl ddim yn cael dewis pa ysgol i gyrru'r plentyn pan mae ysgol yn ei pentref nhw.

026	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Mae fy mhlant wedi elwa'n fawr o fynychu ysgol yng nghalon y gymdeithas uniongyrchol. Teimlaf ei bod yn galon ein cymdeithas a dylai aros fel y mae.
027	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Teimlo mai'r ysgol yw calon y pentref, ac mae teuluoedd ifanc yn symud i mewn, a bydd angen ysgol bentref.
028	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓	Bydd cau'r ysgol yn cael effaith niweidiol ar y plant, staff a'r gymdeithas. "If something aint broke why fix it" Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd hapus, diogel ac addysgol i blant.
029	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓	Mae angen i'r ysgol fod o fewn pellter cerdded. Llauer o rieni ddim yn gallu gyrru. A yw'n ymarfeol anfon rhai 4 oed ar y bws. Mae'r ysgol yn rhan bwysig iawn o'r pentref felly bydd llauer o bobl yn symud o'r pentref i fod yn nes at ysgol wahanol.
030	✓	Aelod o staff yn un o'r ysgolion presennol	✓	Gofyn am sylwadau? Onid ywr ateb yn amlwg?
031	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Yr ysgol yw calon y pentref newid mawr i'r plant yn gorfod teithio i ysgol dolgarog (<i>sic</i>).
032	✓	Rhiant plentyn oedd yn un o'r ysgolion yn flaenorol	✓	Byddai'n rhaid i blant ifanc gael eu cludo beth pellter o'u cartrefi/pentref - problem diogelwch! Colli ymdeimlad cymdeithasol - niweidiol i bentref bach gwledig gan arwain (o bosibl) at golli gwasanaethau pentref pellach.
033	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Mae angen i'r ysgol fod o fewn pellter cerdded. Llauer o rieni ddim yn gallu gyrru. A yw'n ymarfeol anfon rhai 4 oed ar y bws. Mae'r ysgol yn rhan bwysig iawn o'r pentref felly bydd llauer o bobl yn symud o'r pentref i fod yn nes at ysgol wahanol.
034	✓		✓	Rhieni nad ydynt yn dreifio yn dibynnu ar y bws etc. Trawmatig i blant iau i fod ymhell o'u cartrefi. Ffyrdd wedi cau yn ystod gaeaf caled, y llifogydd yn ei gwneud yn amhosibl cyrraedd manau yn is i lawr y dyffryn.
035	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Peidiwch â chau ysgol Trefriw. Rwy'n rhiant plentyn bach (nid o oed ysgol eto) ac nid oes gennyf eisiau anfon fy mhentyn i ysgol y tu allan i'r pentref. Hefyd, nid wyf yn dreifio, byddai mynd i ac o'r ysgol yn anodd iawn.
036	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓	Byddwn yn siomedig iawn o weld Ysgol Trefriw yn cau. Mae'r ysgol yng nghalon y gymdeithas. Mynychais i a fy ngwr yr ysgol hon ar roeddwn wedi gobeithio y byddai fy merch yn gwneud hynny hefyd.

037	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol		✓	Mae gennym dri phlentyn yn Ysgol Trefriw ar hyn o bryd gyda dau arall wedi bod drwy'r ysgol. Credwn fod ein plant wedi ac yn cael addysg o'r radd flaenaf yn Ysgol Trefriw. Mae Estyn ei hunain wedi cydnabod fod yr ysgol yn gweithio yn dda. Mae'r staff yn ymroddedig ac yn llwyddo i symbylu a diddori ein plant. Mae ethos yr ysgol yn arbennig a safon disgyblaeth yn hynod uchel. Mae ein plant yn rhan o gymdeithas gynhwysol yr ysgol a'r gymuned yn ehangach yn Nhrefriw. Credwn y byddai cau yr ysgol yn tloedi y cymunedau hyn. Ni welwn unrhyw fantais o gau yr ysgolion uchod er mwyn ceisio creu cymuned estron. Yn sicr mae lle i'r dair ysgol bresennol gydweithio mwy ac fe ddylai yr awdurdod fynd ati i hwyluso hyn yn hytrach na cheisio eu cau.
038	✓	Llywodraethwr un o'r ysgolion presennol / Aelod o staff un o'r ysgolion presennol		✓	Pam cau ysgol sy'n bresennol yn darparu disgyblion gyda phrofiadau dysgu o'r radd flaenaf o fewn eu hardal eu hunain? Rwy'n ymwybodol o ysgolion gwledig eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhaglen moderneiddio y mae eu cost fesul disgybl yn sylweddol uwch nag Ysgol Tal y Bont.
039	✓	Llywodraethwr un o'r ysgolion presennol		✓	Ar sail yr adroddiad manwl gan yr ysgol l'r cynllun ym 2010, a'r gwrthwynebiad clir l'r uno, nid wyf yn cytuno gyda'r cynnig hwn gan nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yr arian ar gael I god I ysgol newydd.
040	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Rwyf wedi byw mewn sawl pentref' bach yng ngogledd Cymru ac yn anffodus mae ysgolion rhai ohonynt wedi cau - mae hyn ymhob achos wedi cael effaith negyddol ar gymdeithas y pentref - dim teuluoedd newydd yn symud i'r pentref a theuluoedd eraill gyda phlant iau yn symud oddi yno gan adael tai yn wag - hyd y bo rhai sydd eisiau bywyd distaw heb blant o'u cwmpas yn penderfynu gwneud pentref yn 'gymdeithas i bobl wedi ymddeol'.
041	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	P	▪	Teimlaf fod ar Ysgol Trefriw angen ysgol, mae fy 2 blentyn yn mynychu Trefriw ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu haddysgu yn y gymdeithas leol.
042	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Nid yw hyn yn beth da i fusnes
043	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Os bydd yr ysgol yn Nhrefriw yn cau bydd safonau addysg yn gostwng, ychwanegir at deithio ar amser prysur, mwy o lygredd a cholli ymdeimlad o gymdeithas yn Nhrefriw.
044	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Mae ar yr ysgol angen ysgol, mae teithio i Ddolgarrag yn rhy bell ac yn ormod i blant bach. Mae'r amserlen bws diweddaraf yn dweud mai'r amseroedd yn y bore yw 7.48 a 9.06, sut mae plant i gyrraedd yno os nad oes gan y rhieni gar.
045	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Mae ysgolion lleol yn elfen bwysig yn y gymdeithas. Bydd y broses yn gwella haen isaf llywodraeth ranbarthol, ond mae'r pris a delir mewn difrod gan gymdeithasau lleol yn rhy uchel
046	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Byddai cau'r ysgol yn Nhrefriw yn drist i ysbryd cymdeithasol y pentref. Ni ddylai ddigwydd
047	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Ysgol yng nghalon pentref llewyrchus. Bydd cau'r ysgol yn Nhrefriw yn niweidiol i'r gymdeithas gyfan nid y rhai gyda phlant o oed ysgol yn unig. Mae'n effeithio ar y deniadolrwydd cyfan i deuluoedd sy'n symud i mewn ac yn gwneud i deuluoedd beidio aros.
048	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Mae cydlyniad cymdeithasol yn cael ei ddwysau trwy gael ysgolion lleol ac amwynderau eraill o fewn pentref yn ogystal â dysgwyr/siaradwyr Cymraeg
049	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Ni wnaed digon i wneud yn siwr bod Ygol Trefriw yn ymarferol – mae ysgolion bach eraill yn rhannu penaethiaid, pam ddim Trefriw? Ysgolion yw bywyd pentrefi, mae ar Trefriw angen un hwy – mae arian dros fywyd cymdeithasol pentref a diddordebau plant yn gwbl ddiennaid. Ni fu gan Gyngor Conwy ddigon o ddiddordeb yn anghenion plant Trefriw ac identiti'r pentref

050	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	
051	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Dylid cadw ysgolion lleol ar agor
052	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Dylai Ysgol Trefriw aros ar agor gan ei bod yn rhan o'r pentref
053	✓	Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	P	▪	Mae 2 o fy mhlant yn mynychu Ysgol Trefriw a byddwn yn drist iawn pe bai'n cau. Byddai'r amser teithio ychwanegol yn niweidiol iawn iddynt - maent eisoes yn mynd ar y bus am 8.30 a.m. o Lanrhydwyn. Heb law agweddau personol o darfu mawr ar fy mhlant, byddai cau'r ysgol yn hoelen arall yn arch Trefriw. Wrth lwc mae gennym siop, caffi a thafarn lewyrchus (gobeithio y bydd y llall yn ail agor yn fuan), ni fydd teuluoedd yn cael eu denu i garu (sic) yn y pentref a bydd yn dod yn bentref / maestref i bobl hyn a chartrefi gwyliau. Bydd siopau'r pentref yn cau a bydd Trefriw'n mynd yn stad dai. Mae hyn yn wir deimlo fel gwahaniaethu yn erbyn cymdeithasau gwledig. Peidiwch â gadael i hyn ddigwydd.
054	✓	Rhiant plentyn oedd yn flaenorol yn un o'r ysgolion		✓	
055	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	cadw'r pentref yn fyw
056	✓	Rhiant plentyn oedd yn flaenorol yn un o'r ysgolion	P	▪	Teimplaf y dylai'r ysgolion bach gwledig hyn aros. Maent yn rhan bwysig o'r gymdeithas. Mae plant yn gallu llewyrchu'n well yn yr ysgolion hyn trwy addysg. Bod yn rhan o'r gymdeithas ac yn fwy unigol yn eu sgiliau a grwpiau cyfoedion.
057	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	P	▪	Os bydd ysgol Trefriw yn cau ni fydd yn annog pobl i symud yma a bydd yn effeithio ar fusnesau a denu unrhyw fusnes newydd
058	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	
059	✓	Plaid arall sydd â diddordeb		✓	Teimplaf ei bod yn bwysig cadw'r ysgol yn Nhrefriw mae'n ased i'r gymdeithas a bydd yn helpu'r gymdeithas yn y dyfodol. Mae'n annog pobl i fyw a phrynu eiddo yn y pentref hefyd.
060	✓	Plaid arall sydd â diddordeb	✓		Rwy'n dad i ddau ar rydym yn symud i Drefriw a chredaf yn gadarn y dylai'r ysgol bentref aros ar agor nid yn unig ar gyfer fy mhlant i'w mynych ond ar gyfer cenedloedd y dyfodol hefyd. Ni ddylem danbriso mantais cael ysgol leol hefyd
061	✓	Plaid arall sydd â diddordeb Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion yn bresennol	✓		Rwy'n fam i 2 o blant (3 oed a 3 mis) a chan ein bod yn symud i Drefriw hoffwn i'r ddau fynd i Ysgol Trefriw heb orfod eu symud yn y dyfodol.
062	✓			✓	Ymateb llythyr (atodiad 2b)
063		UCAC			Ymateb llythyr (atodiad 2c)

064	✓	Aelod o staff yn un o'r ysgolion	✓	<p>Credaf fod y penderfyniad i gyfuno tair ysgol yn un gwael. Rwy'n meddwl bod cau ysgol wledig fechan yn benderfyniad ofnadwy gydag ol-ffaith tymor hir i'r pentrefi mae'n effeithio. Ni all unrhyw swm o liniaru ac ysgol newydd hylleu leihau effaith niwedol y penderfyniad. Y peth gwethaf yw, fy mod yn teimlo bod y cyngor yn mynd o'i chwmpas hi y ffordd anghywir, ac o ganlyniad teimlaf wedi fy nawddogi. Mae'r rhesymau dros hyn The decision to do this purely a financial cost cutting one and I would rather that you come out and say it, yn lle ceisio twyllo pobl trwy eu hudo gydag adeilad newydd. Mae hyn yn amherthnasol. Yr athrawon ac ysbryd yr ysgol sy'n bwysig. Ni fydd unrhyw swm o ipads a deflir at yr ysgol newydd yn newid pethau. Mae hwn yn fater emosiynol iawn fel y gwelwch, ac nid wyf yn meddwl bod dewisiadau eraill wedi'u hymchilio'n ddigonol. Mae'r tair ysgol yn ardderchog ac mae gan bob un ei ethos a chymdeithas. Nid yw eu cau ar gyfer ysgol newydd yn wetth colli hanes ac unigolrwydd y tair ysgol. Mae'r adeiladau eu hunain yn gyfoethog mewn hanes o adeiladwaith cadarn – yn llawer gwell nag adeiladau newydd. Nid oes arnynt ond angen man atgyweiriadau ac ni fyddent yn costio llawr i ddod a hwy i safonau uwch nag ydynt yn bresennol. Ar y cam hwn ni wyf yn cyflwyno rhesymau / gwrthwynebiad ond byddaf yn gwneud hynny ar y cam gwrthwynebu ffurfiol.</p>
-----	---	----------------------------------	---	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------